

Mae angen nythod ar adar!

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd ac mae adar yn brysur yn adeiladu eu nythod!



Mae'r pecyn hwn yn llawn syniadau gwanwynol i chi a'ch plant eu gwneud adref gyda'ch gilydd, mae'r gweithgareddau wedi eu hanelu at blant dan 5 ond gall yr holl deulu gymryd rhan! Cewch archwilio deunyddiau, gwneud marciau, stacio, sortio, adeiladu, canu, gwrando, ond yn bwysicach cewch chwarae gyda'ch gilydd!



Beth sydd yn y bocs?

Mae'r wyau i gyd yn teimlo'n wahanol! Cychwynnwch drwy archwilio'r wyau gyda'ch gilydd.

Am fwy o archwiliad synhwyrdd rhowch dro ar y raffia, y gwlân, a'r plu er mwyn cael profiad meddal, fflwfflyd a chrensiog.



Gwneud Marciau

Defnyddiwch y papur du i geisio marcio gyda'r sialc – gadewch i'ch plentyn ddar-ganfod pa farciau gallant eu gwneud gyda'r sialc.

Rhowch dro ar y papur gwyn neu focs wyau i wneud marciau gyda chreionau. Gallwch addurno'r wŷ pren gyda'r wŷ creon neu baent os oes gennych baent adref.



Creu gyda Bocsys wyau

Mae bocsys wyau yn wych fel hambyrddau sortio, i'w stacio, ac yn wych ar gyfer adeiladu. Efallai eich bod eisoes yn cadw eich bocsys wyau ar gyfer creu pethau?

Dyma sut i wneud aderyn bach a mwy o ysbrydoliaeth bocsys wyau: <http://www.tickylowe.com/making-sense/>

Dyma rai syniadau eraill i ddefnyddio bocsys wyau gyda'ch gilydd:




Creu nyth clyd

Mae nyth yn lle clyd a diogel i aderyn ddodwy wyau.

Gallwch ddefnyddio'r raffia, y gwlân a'r plu i wneud nyth a'i roi yn rhywle diogel. Gallech roi'r wyau a'r adar byddwch chi'n eu creu yn y nyth!



Gwasanaeth Archifau Conwy



Defnyddiwch glustogau a blancedi i wneud nyth i chi'ch hun yn eich ystafell fyw!

Adar ecsotic

Ar bapur du ceisiwch ddefnyddio'r plu i greu collage o adar.



Ydych chi'n gwybod y rhigwm hwn?

Defnyddiwch y siglwr ŵy i ychwanegu rhythm!

*Mi welais Jac y Daw
yn eistedd ar ben to;
het wen ar ei ben a dwy goes bren
ho-ho-ho-ho-ho-ho*



Wyddoch chi fod pobl oedd yn cael eu geni o fewn waliau canoloesol tref Conwy yn cael eu galw yn Jac-Dos!

Bwydo'r Adar

Dyma ffordd hawdd i wneud peth bwydo adar allan o focs wyau!

